CYFRES B3

amserbeibl

Astudiaethau Beiblaidd – Safon 4

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oedran Dyddiad geni

Enw

Cyfeiriad

Enw Arweinydd y Dosbarth

Astudiaethau Beiblaidd o'r Efengylau

Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th

DARLLENWCH
Luc 10: 38-42

ADNOD ALLWEDDOL
Marc 6: 31

Astudiaeth 1 Bethania – Yn y Cartref

Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen
Marc 6: 7-13 Rhufeiniaid 12: 1-2 Eseia 40: 28-31

Yn ystod tair blynedd ei waith cyhoeddus, does neb yn gwybod faint o filltiroedd a gerddodd yr Arglwydd Iesu wrth deithio trwy Jwdea a Galilea. Yn aml, mae'n siwr ei fod wedi blino ac eisiau bwyd, yn barod i gael gorffwys. Mae'n debygol bod croeso iddo bob amser i gael gorffwys a phryd o fwyd yng nghartref Mair a Martha.

C **Edrychwch ar Ioan 11:1 i gael gweld lle'r oedd Mair a Martha'n byw.** _____ 1

C **Nid yw'r pentref hwn yn bell o brifddinas Jwdea, sef** _____ **Darllenwch Ioan 11: 18** 1

Wrth deithio i'r brifddinas, byddai'n rhaid i bobl ddringo rhiwiau serth. Byddai llawer o bobl yn aros ym mhentref Mair a Martha i gael gorffwys cyn dringo rhan olaf y rhiw i'r ddinas.

C **Yn ôl Luc 10:38 beth wnaeth Martha pan ddaeth Iesu i'w phentref?** 2

Roedd y ddwy chwaer yn wahanol iawn i'w gilydd o ran eu cymeriad.

CHWILAIR

Mae'r geiriau coll o'r brawddegau isod yn y Chwilair. Rhowch gylch o gwmpas y geiriau a'u rhoi yn y lle cywir yn y brawddegau. Maen nhw wedi'u hysgrifennu am yn ôl, ymlaen, i fyny ac i lawr.

Aeth Iesu a'i _____ i gartref Mair a Martha.

Roedd Mair yn _____ wrth _____ Iesu, yn _____ arno'n siarad.

Roedd Martha yn brysur yn paratoi _____ .

A	DD	W	A	I	R	E	N
D	I	I	U	R	A	I	A
G	S	B	DD	W	R	M	TH
R	G	W	R	A	N	D	O
O	Y	Y	I	D	R	N	R
P	B	D	A	R	A	I	S
O	L	P	H	A	R	A	O
E	I	S	T	E	DD	N	A
M	O	M	U	D	A	E	R
M	N	O	E	C	I	D	O

5

Roedd Mair eisiau dysgu gan yr Arglwydd Iesu. Yr unig ffordd iddi wneud hynny oedd bod yn agos ato a chanolbwyntio ar yr hyn yr oedd yn ei ddweud. Efallai nad oedd hi wedi'i glywed yn siarad fel hyn o'r blaen. Roedd Martha yn poeni mwy am ei gwaith o gwmpas y tŷ. Mae'n hawdd i ni fod fel Martha a bod mor brysur yn gwneud ein gwaith cartref, chwaraeon, gwylio'r teledu ac ati fel nad ydym yn treulio amser yn darllen Gair Duw ac yn gweddïo. Os na wnawn ni aros a gwrando ar yr Arglwydd, fyddwn ni ddim yn gwybod beth sydd ganddo i'w ddweud wrthym..

Doedd Martha ddim yn hapus iawn.

C **Beth oedd cwyn Martha wrth Iesu?**



1

C **Ysgrifennwch y rhan o ateb Iesu a geir yn adnod 41.**



1

Yn adnod 42 mae'r Arglwydd Iesu yn parhau â'i ateb i Martha.

C **Ysgrifennwch YN EICH GEIRIAU EICH HUNAN beth roedd Iesu'n ei olygu wrth roi'r ateb hwn.**

2

Un waith, roedd y disgyblion yn brysur iawn, fel Martha.

C **Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol a thanlinellu'r union eiriau a ddywedodd Iesu wrthynt.**

3

C **Edrychwch ar Mark 6: 7-13 a rhoi √ neu × i ddangos a yw'r brawddegau hyn yn gywir neu'n anghywir:-**

Roedd Iesu wedi anfon y disgyblion allan mewn parau. .....

Roedd wedi dweud wrthynt am fynd i chwilio'r wlad. .....

Fe gawson nhw bryd mawr i ddathlu pan ddaethon nhw nôl. .....

Mae'r Adnod Allweddol yn dangos pa mor bwysig yw bod yn dawel a gorffwys ar ôl cael amser prysur. .....

4

Treuliodd y disgyblion y diwrnod yn gwrando ar Iesu, fel y gwnaeth Mair.
Y cyngor i'w gofio yn y wers hon yw:-

'Peidiwch â bod mor brysur yn eich bywyd fel nad oes amser gennych i wrando ar Iesu a dysgu wrtho'.

Enw _____

DARLLENWCH
Ioan 11: 1 - 44

ADNODAU
ALLWEDDOL
Ioan 11: 25 a 26

Astudiaeth 2 Bethania – Wrth y Bedd

Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen
Luc 23: 39-43 1 Corinthiaid 15 Philipiaid 1: 21-23

Beth amser wedyn, daeth Iesu i Fethania eto. Mae'n debyg ei fod yn dod yno'n eithaf aml.

C Pa adnod yn y Darlleniad o'r Beibl sy'n dweud wrthym sut roedd Iesu'n teimlo am y teulu ym Methania?

Adnod

1

CROESAIR



CLIWIAU I LAWR
2. Dywedodd Iesu fod gwaeledd Lasarus yn _ _ _ _ _ _ _ _ i Dduw.
3. Roedd y disgyblion yn meddwl y byddai Lasarus yn _ _ _ __ _.
4. Roedd ar y disgyblion ofn mynd i Jwdea gan fod yr Iddewon wedi ceisio __ _ _ _ __ _ _ Iesu.
6. Dywedodd Iesu bod Lasarus yn _ _ _ _ (adnod 11)

CLIWIAU AR DRAWS
1. Dywedodd Iesu y byddai Mab Duw yn cael ei _ _ _ _ _ __ _ trwy waeledd Lasarus.
5. Lle'r oedd Martha, Mair a Lasarus yn byw?
7. Pan glywodd y newyddion, arhosodd yn y fan lle'r oedd am __ _ _ ddiwrnod arall.

7

C Pan gyrhaeddodd Iesu i Fethania, dyma beth a ddigwyddodd. Llanwch y bylchau.

Roedd Lasarus wedi'i gladdu ers _____ diwrnod. Roedd llawer o'r _____ wedi dod o Jerwsalem i gysuro Mair a Martha. Dim ond ___ _____ i ffwrdd oedd Jerwsalem. Aeth _____ allan i gyfarfod â Iesu ond arhosodd _____ yn y tŷ.

5

Maes o law, daeth y ddwy chwaer at Iesu. Y peth diddorol yw bod y ddwy wedi dweud yr un peth pan welson nhw ef.

C Beth ddywedon nhw?



1

Daeth Iesu â chysur a gobaith iddynt.

C **Ysgrifennwch yr Adnodau Allweddol.**

2

Roedd Iesu'n gofyn i Martha a oedd hi'n barod i ymddiried ynddo ar gyfer bywyd tragwyddol. Mae'n fwy na thebyg nad oedd Martha yn deall yn iawn beth roedd Iesu'n ei ddweud achos roedd yn siarad am ddau fath o farwolaeth.



1) **Marwolaeth Gorfforol neu Naturiol.**
Mae hyn yn digwydd pan fydd ein cyrff ni, fel Lasarus, yn mynd yn sâl ac yn marw.

2) **Marwolaeth Ysbrydol.**
Canlyniad pechod yw hyn. Mae'n golygu cael ein gwahanu oddi wrth Dduw.
Os na fydd Duw wedi maddau ein pechodau pan fyddwn yn marw, byddwn yn cael ein gwahanu oddi wrtho ac yn cael ein cosbi ganddo am byth.

Er bod diwedd ein bywyd yn dod a ninnau'n marw, os byddwn wedi ymddiried yn Iesu, byddwn yn mynd ato ef am byth i'r Nefoedd. I Gristnogion, nid yw marwolaeth yn ddiwedd i'n bywydau. Darllenwch Philipiaid 1: 21-23.

C **Darllenwch Ioan 3:16 ac Ioan 5:24 ac ysgrifennwch beth yw'r addewid i bobl sy'n credu yn Iesu.**

2

Ydych chi wedi credu yn Iesu ac wedi cael ei addewid Ef?



Yna, dangosodd yr Arglwydd Iesu bod ganddo awdurdod dros farwolaeth trwy godi Lasarus o farw'n fyw.

C **Edrychwch ar y 10 adnod olaf yn y Darlleniad o'r Beibl.**

Beth wnaeth Iesu a ddangosodd mai dyn fel ni ydoedd?

2

Beth wnaeth Iesu a ddangosodd ei fod yn Dduw?

Enw _____

DARLLENWCH
John 11: 55-57
John 12: 1-11

ADNOD ALLWEDDOL
Salm 95: 6

Astudiaeth 3 Bethania – Wrth y Bwrdd

Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen
Exodus 12 Mathew 2: 1-11

Ar ôl iddo godi Lasarus o farw'n fyw, gallech feddwl y byddai pawb yn credu mai Iesu oedd y Meseia. Nid oedd hynny'n wir. Yn lle hynny, dechreuodd y prif offeiriaid a'r Phariseaid gynllwynio i'w ladd.

Y Meseia, neu Crist, oedd yr enw am yr un y byddai Duw'n ei ddewis i achub pobl.

C **Darllenwch Ioan 11:57 ac esbonio YN EICH GEIRIAU EICH HUNAN pa orchmynion a roddodd yr arweinwyr crefyddol.** 1

Roedd y rhan fwyaf o'r Iddewon eisiau mynd i Jerwsalem adeg y Pasg. Unwaith y flwyddyn, roedden nhw'n dathlu'r ffaith fod Duw wedi eu hachub o'u bywyd fel caethweision yn yr Aifft.

C **Pwy oedd arweinwyr Israel ar y pryd? (Darllenwch Exodus 12: 1)** 1

C **Aeth Iesu i gartref Lasarus, Mair a Martha. Rhowch √ neu × i ddangos a yw'r brawddegau isod yn GYWIR neu'n ANGHYWIR:-** 5

Roedd Lasarus yn rhy sâl i gael bwyd gyda nhw .....
Iesu oedd y prif westai. .....
Penderfynodd Martha eistedd wrth draed Iesu. .....
Roedd ar y disgyblion ormod o ofn i ddod i Fethania. .....
Cynhaliwyd y swper chwe diwrnod cyn y Pasg.. .....

C **Beth wnaeth Mair oedd yn anghyffredin a beth oedd canlyniad hynny?** 3

Roedd Mair yn gwneud rhywbeth tebyg i'r hyn a wnaeth y Doethion pan ddaethant i weld Iesu ar ôl ei eni.

C **Edrychwch ar Mathew 2:11 ac ysgrifennu'r gair sy'n disgrifio beth a wnaethant.** 1



Y tro hwn, roedd Mair eisiau dangos ei chariad at yr Arglwydd Iesu. Rhoddodd rywbeth a oedd wedi costio llawer iawn o arian iddi i'r Arglwydd. Roedd wedi costio tua'r un faint o arian ag yr oedd gweithiwr yn ei ennill mewn blwyddyn.

Doedd Jwdas ddim yn barod i aberthu fel y gwnaeth Mair. Roedd e'n hunanol.

C **Beth ddywedodd Jwdas?**



2

C **Mae'r Darlleniad o'r Beibl yn dweud nifer o bethau am Jwdas. Rhestrwch dri ohonynt.**

1
2
3

3

C **Ysgrifennwch ateb Iesu i Jwdas.**



1

C **Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol. Tanlinellwch un gair sy'n crynhoi thema'r astudiaeth hon.**

2

Roedd Mair wedi gwrando ar yr Arglwydd Iesu. Roedd hefyd wedi gweld ei brawd yn cael ei godi o farw'n fyw. Roedd yn dechrau deall bod Iesu'n Fab Duw. Dyna pam y dangosodd ei chariad trwy ei addoli.
Heddiw, gall Cristnogion ddangos eu cariad at Iesu trwy ufuddhau iddo.

C **Chwiliwch am Ioan 14:15, ac ysgrifennu'r adnod.**

1

Gofynnwch i'r Arglwydd Iesu eich helpu i wneud hyn.

Enw _____

DARLLENWCH
Luc 19: 28-41

ADNOD ALLWEDDOL
Ioan 1: 12

Astudiaeth 4 Bethania – Ar y ffordd i Jerwsalem

Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen
Sechareia 9: 9 -13 Ioan 12: 12 -19

Mae'r Arglwydd Iesu'n paratoi at yr hyn a elwir erbyn hyn yn Sul y Blodau neu'r Ymdaith Fuddugoliaethus i Jerwsalem. Unwaith eto, mae ger Bethania ac yn barod i ddringo'r rhiw i'r ddinas fawr am y tro olaf.
Yn y gyfres hon o astudiaethau, rydym wedi bod yn meddwl am dri thro arall y bu Iesu ym Methania.

C **Rhowch y geiriau yn y drefn gywir i'ch atgoffa'ch hunan o'r pwyntiau pwysig yr ydym wedi'u dysgu o bob un o'i ymweliadau.**

Yn yr astudiaeth gyntaf, fe ddysgon ni fod fel Mair a ARNOGDW_____ arno.
Yn yr ail, fe ddysgon ni fod fel Martha a DECHUR _____ ynddo.
Yn y drydedd, fe ddysgon ni fod fel Mair a'i LOIADD _____ ef.

3

Roedd Bethania tua dwy filltir o Jerwsalem a byddai Iesu wedi cerdded yno sawl gwaith o'r blaen. Ond y tro hwn fe ddewisodd deithio mewn ffordd wahanol.

C **Beth ddywedodd Iesu wrth y ddau ddisgybl am ei wneud?**

2

C **Beth oedden nhw i fod i'w ddweud wrth unrhyw un a oedd yn holi beth roeddent yn ei wneud?**

2

Mae dau beth pwysig yma. Yn gyntaf, gofynnodd Iesu i'w ddisgyblion wneud rhywbeth anghyffredin, ac fe wnaethon nhw ufuddhau iddo. Yn ail roedd perchennog yr ebol (asyn) yn barod i golli rhywbeth yr oedd yn berchen arno a gadael i'r Arglwydd ei gael.
A oes rhai pethau y mae'r Arglwydd eisiau i chi eu gwneud ac nad ydych yn barod i ufuddhau iddo? A oes pethau y mae Ef eisiau i chi eu rhoi iddo ond nad ydych chi'n barod i'w rhoi?

C **Atebwch DO neu NADDO i'r brawddegau isod:-**

Rhoddodd rhai pobl eu cotiau ar y ffordd. .....
Rhoddwyd cyfrwy lledr ar gefn yr ebol. .....
Aeth Iesu ar gefn yr ebol. .....
Gwaeddodd rhai o'r Phariseaid yn erbyn Iesu. .....
Daeth yr orymdaith i lawr Mynydd yr Olewydd. .....
Roedd yr Arglwydd Iesu'n falch pan welodd Jerwsalem.. .....

6

C **Darllenwch y Darlleniad o'r Beibl ac ysgrifennu'r Gân o Foliant a ganwyd y diwrnod hwnnw.**



2

C **Darllenwch Ioan 12:13 ac ysgrifennu brawddeg i esbonio beth arall a wnaethon nhw.**

1

C **Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol.**

2

C **Tua 500 mlynedd cyn hynny, roedd Duw wedi dweud y byddai'r diwrnod hwn yn dod. Edrychwch ar y broffwydoliaeth yn Sechareia 9: 9 ac ysgrifennu YN EICH GEIRIAU EICH HUNAN sut y gwnaeth yr Arglwydd Iesu i hyn ddod yn wir.**

2

Y diwrnod hwnnw, croesawyd yr Arglwydd Iesu i Jerwsalem. Ydych chi wedi'i groesawu i'ch bywyd chi?

Beth am wneud hon yn weddi i chi?

Ar asyn daeth yr Iesu cu
drwy euraid borth Caersalem dref,
a gwaeddai'r plant â'u palmwydd fry:
Hosanna, Hosanna, Hosanna iddo ef!

O boed i blant ein hoes a'n gwlad,
fel cynt gwnâi plant Caersalem dref,
roi clod a mawl i'r Iesu mad:
Hosanna, Hosanna, Hosanna iddo ef!

cyfanswm

Marciau
(i'w nodi gan yr arweinydd)

Cyfanswm

Cyfanswm Llawn

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services. P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar www.biblelinkit.com neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.
Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygwyd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts.
Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o **www.amserbeibl.org**
Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120